



Ein cyf/Our ref: MA/JJ/0664/21

At:
Arweinwyr Cyngorau Sir a Chyngorau Bwrdeistref Sirol yng
Nghymru

Anfonir copi at:
Brif Weithredwyr a Chyfarwyddwyr Cyllid, Cyngorau Sir a Chyngorau Bwrdeistref Sirol
yng Nghymru
Prif Weithredwr a Chyfarwyddwr Cyllid, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

2 Mawrth 2021

Annwyl Gyfeillion

Rwy'n cyhoeddi heddiw fanylion y Setliadau Refeniw a Chyfalaf Terfynol ar gyfer Llywodraeth Leol yn 2021-22 (y Setliad) i gynghorau sir a chyngorau bwrdeistref sirol yng Nghymru mewn Datganiad Ysgrifenedig. Mae copi o'r datganiad hwnnw ynghlwm er gwybodaeth.

Mae fy nghyhoeddiad yn amlinellu fy mwriad i bennu cyllid refeniw craidd ar gyfer llywodraeth leol yn 2021-22 yn £4.651 biliwn. Golyga hyn, ar ôl addasu ar gyfer trosglwyddiadau, y bydd cynnydd o 3.8 y cant, ar sail tebyg am debyg o'i gymharu â'r flwyddyn gyfredol, yn y cyllid craidd cyffredinol ar gyfer llywodraeth leol yn 2021-22.

Wrth baratoi'r Setliad terfynol, rwyf wedi ystyried yn ofalus yr ymatebion a gefais i'r ymgynghoriad ar y setliad dros dro, a ddaeth i ben ar 9 Chwefror. Ni nodwyd yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad unrhyw faterion y dylid newid y dull gweithredu a ddefnyddir mewn perthynas â hwy ar gyfer y Setliad terfynol.

Dyrennais yr holl gyllid sydd ar gael i'r setliad dros dro i roi cymaint o sicrwydd cynnar ag y gallwn i'r awdurdodau. Nid oes unrhyw gyllid pellach ar gael gennyf ar hyn o bryd. Byddai'n rhaid i unrhyw lefel cyllid gwaelodol a bennir ailddosbarthu cyllid er mwyn bod yr awdurdodau hynny sy'n eistedd uwchben y lefel honno yn ariannu'n rheini oddi tani mewn modd cymesur. Rwyf wedi penderfynu peidio â chynnwys lefel cyllid gwaelodol ar gyfer y Setliad terfynol.

Yn ogystal â'r Setliad, rwy'n cyhoeddi gwybodaeth am grantiau refeniw a chyfalaf a gynlluniwyd ar gyfer 2021-22. Mae'r rhain yn dod i fwy na £1 biliwn ar gyfer refeniw a mwy na £760 miliwn ar gyfer cyfalaf. Rydym hefyd wedi cynnwys manylion grantiau COVID penodol i gefnogi awdurdodau lleol, er enghraifft, £206m i ymestyn y Gronfa Galedi Llywodraeth Leol ymlaen i chwe mis cyntaf y flwyddyn er mwyn parhau i'ch cefnogi gyda'r costau ychwanegol a'r incwm a gollwyd yn sgil y pandemig. Mae hyn yn cynnwys cymorth ar gyfer cynlluniau yr ydych yn eu cyflwyno ar ein rhan, fel taliadau ar gyfer hunanynysu. Hoffwn ddiolch unwaith

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

yn rhagor am ymdrechion eich swyddogion i ddarparu cymaint o gymorth i unigolion, busnesau a chymunedau mewn ymateb i effeithiau'r pandemig a digwyddiadau difrifol eraill.

Bydd y cyllid cyfalaf cyffredinol ar gyfer 2021-22 yn parhau wedi'i bennu yn £198 miliwn. Mae'r swm hwn yn cynnwys £20 miliwn ar gyfer y grant adnewyddu priffyrdd cyhoeddus gan gynnwys cymorth ar gyfer llwybrau teithio llesol. Rydym hefyd yn parhau â'r taliad chwyddo cyffredinol o £35m o'r grant sylfaenol hanesyddol. Bydd hyn yn eich helpu i barhau i ymateb i'r blaenoriaethau a rennir gennym o ddatgarboneiddio, yr argyfwng hinsawdd a'r adferiad economaidd yn dilyn COVID-19.

Mae'r *Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol* terfynol a'r tablau ychwanegol sy'n cynnwys manylion y Setliad terfynol fesul awdurdod unigol hefyd yn cael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru.

Atgoffir awdurdodau lleol o'r gofyniad i gydymffurfio â'r dyletswyddau cydraddoldeb cyffredinol a nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010, a hefyd y dyletswyddau cydraddoldeb penodol lle y maent yn berthnasol. Dylid asesu effaith opsiynau cyllidebol ar gydraddoldeb a dylai hyn lywio unrhyw benderfyniadau terfynol.

Mae angen i awdurdodau hefyd ystyried eu dyletswyddau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Safonau'r Gymraeg wrth baratoi cynlluniau ar gyfer 2021-22.

Mae'r Setliad terfynol hwn yn rhoi wybodaeth sydd ei hangen arnoch i gynllunio eich cyllidebau a'ch gwasanaethau ar gyfer 2021-22 fel rhan o'ch cynlluniau ariannol tymor canolig.

Byddwn yn parhau i ymgysylltu mewn modd cadarnhaol â llywodraeth leol ar bob mater sy'n gysylltiedig â chyllid drwy'r Is-grŵp Cyllid.

Bydd y Llywodraeth yn awr yn mynd ati i osod Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol (Rhif 1) 2021-22 i fod yn destun dadl yn y Senedd ar 9 Mawrth 2021.

Yn gywir



Julie James AS/MS
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
Minister for Housing and Local Government